Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

"Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Gorffennaf 2007 — Rhifyn 5

Yn y Rhifyn Hwn:

Pass Plus Cymru •Gwefan Diogelwch Ffyrdd Cymru •Llwybrau Diogel mewn Cymunedau •Abertawe'n cipio gwobr •Cydweithio ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd •Ymgyrch Dyn y Fan Wen •Efelychydd pellterau stopio •Newid y rheolau ynghylch bagiau aer •Llawlyfr i yrwyr gwirfoddol •Taclo cludwyr twyllodrus •Pen-blwydd PACTS yn 25oed •'City Safety' Volvo •Cynllun 'Excess Speed'

Pass Plus Cymru

Yn barod i wynebu'r Briffordd? – Ddim eto efallai!
Dangosodd arolwg o yrwyr gan Direct Line Insurance yn ddiweddar fod dros un o bob pump o fodurwyr sydd newydd lwyddo yn eu prawf gyrru yn cyfaddef nad ydyn nhw'n barod i yrru ar eu pennau eu hunain ar ôl cael trwydded lawn. Efallai ei bod hi'n syndod gwybod yr hoffai 89% ohonynt weld ymgeiswyr yn cael prawf caletach.

Dangosodd arolwg fod tri o bob pedwar Hyfforddwr Gyrru Cymeradwy yn teimlo y dylai'r Prawf Gyrru fod yn fwy anodd, a chanlyniadau'r arolygon hynny sy'n esbonio pam y mae Swyddogion Diogelwch ar y Ffyrdd yng Nghymru wrthi'n brysur yn hyrwyddo Pass Plus Cymru, sef fersiwn helaethach o gwrs Pass Plus yr Asiantaeth Safonau Gyrru. Mae'n rhoi hyfforddiant pellach i yrwyr newydd ar ôl iddynt lwyddo yn eu prawf. Caiff Pass Plus Cymru ei ariannu â grant arbennig gan Lywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd. I weld manylion y cynllun ac archebu lle arno, ewch i www.dragondriver.com

pass plus cymru

Lansio gwefan Diogelwch Ffyrdd Cymru

Gan mai cenhadaeth Diogelwch Ffyrdd Cymru yw cwtogi rhagor ar anafiadau a marwolaethau drwy gydweithio, mae ef wedi lansio gwefan newydd sbon www.roadsafetywales.co.uk/cymraeg

Ar y wefan newydd cewch wybodaeth am fentrau a gweithgareddau a gynhelir yn lleol ac yn genedlaethol ledled Cymru i roi addysg a hyfforddiant mewn diogelwch ar y ffyrdd a chyhoeddusrwydd i'r maes. Mae'r wefan ddwyieithog yn cynnwys adrannau ar:

- Y newyddion diweddaraf am ddiogelwch ar y ffyrdd
- Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd
- Digwyddiadau diogelwch ar y ffyrdd
- Datganiadau i'r wasg
- Ystadegau ynghylch anafiadau a marwolaethau ar y ffyrdd
- Adnoddau diogelwch ar y ffyrdd
- Cysylltau â gwefannau eraill sy'n rhoi sylw i ddiogelwch ar y ffyrdd
- Cysylltiadau ledled Cymru

Meddai Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru, Joy Smith, "Gan fod Partneriaid Diogelwch Ffyrdd Cymru yn credu mai at y wefan y bydd pobl yn troi cyn hir i gael gwybod am bopeth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru, bydd hi'n gaffaeliad i ymarferwyr, gwleidyddion a'r cyfryngau yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol."

Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

Ym mis Ebrill, manylodd Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithio ar y pryd, ar raglen newydd i gynyddu diogelwch ar y ffyrdd a hybu cerdded a beicio mewn cymunedau. Cost y rhaglen fydd £10 miliwn.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Wrth ei lansio, fe ddywedodd Andrew Davies, 'Mae'r rhaglen newydd hon, Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, yn adeiladu ar ein cynllun hynod lwyddiannus, Llwybrau Diogel i'r Ysgol. Bydd y rhaglen, a fydd yn costio £10m, yn gyfle i ragor o blant gerdded neu feicio'n ddiogel i'r ysgol, yn cynyddu hygyrchedd ac yn hybu cerdded a beicio yn fwy cyffredinol yn ein cymunedau.'

'O dan y rhaglen newydd, bydda i'n trefnu i awdurdodau lleol gael rhagor o gyllid i ddatblygu cynlluniau Llwybrau Diogel yn y Cymunedau. Er y bydd y mwyafrif o'r cynlluniau hyn yn dal i ganolbwyntio ar ysgolion am eu bod nhw wrth galon ein cymunedau, fe hoffwn i hefyd hybu datblygu llwybrau diogel ar gyfer cerdded a beicio, a chreu cysylltiadau rhyngddyn nhw a chanolfannau hamdden, parciau, ysbytai a chanolfannau gofalu i'r henoed. Rwy'n arbennig o awyddus i gefnogi cynlluniau arloesol sy'n canolbwyntio'n bendant iawn ar wella diogelwch ar y ffyrdd, gan gynnwys cynlluniau sy'n cysylltu â datblygu llwybrau diogel i barthau 20mya.'

'Bydd y rhaglen yn sicrhau amrywiaeth mawr o fanteision, gan adlewyrchu fy ymrwymiad i ddarparu cludiant cydlynol a chynaliadwy fel y nodir yn y Strategaeth sy'n datblygu ar gyfer Cludiant yng Nghymru. Yn ogystal â chynyddu diogelwch ar y ffyrdd, bydd yn helpu i daclo'r cludo ar blant i'r ysgol mewn ceir ac yn rhoi cyfle i ragor o ddisgyblion gerdded neu feicio i'r ysgol, ac i dynnu traffig oddi ar y ffyrdd ar yr adegau prysuraf o'r dydd. Bydd y rhaglen hefyd yn sicrhau'r manteision iechyd sy'n deillio o gynyddu cerdded a beicio, a'r manteision i'r gymuned ehangach sy'n deillio o gael rhagor o gynhwysiant cymdeithasol a chynyddu diogelwch y gymuned.'

Abertawe'n cipio'r wobr

Tîm diogelwch ar y ffyrdd Abertawe sydd wedi ennill gwobr LARSOA am ymgyrch y chwarter o fis Ionawr tan fis Mawrth 2007, a hynny am ei ymgyrch 'igam-ogam dynol'.

Yn ystod yr ymgyrch, fe safodd rhai o ddisgyblion Ysgol Gynradd Sain Helen ac aelodau o dîm diogelwch ar y ffyrdd Abertawe ar y marciau ffyrdd i dynnu sylw at beryglon y bydd rhieni'n eu creu wrth barcio wrth glwyd yr ysgol.

Defnyddiwyd y llun ar boster ac arno'r slogan 'Would you park on these Zig Zags?' Cafodd pob ysgol yn Abertawe gyflenwad o gopïau o'r poster, a baner i'w harddangos ar ei rheiliau gwarchod.

Meddai Jeff Green, Swyddog Diogelwch ar y Ffyrdd: "Gobeithio y bydd yr ymgyrch bosteri'n tynnu sylw at y broblem ac yn gwneud i fodurwyr feddwl ddwywaith cyn parcio wrth glwydi ysgolion."

Caiff pob ymgyrch sy'n cael sylw gan raglen bwydo newyddion LARSOA ei chyflwyno'n awtomatig ar gyfer y wobr, a thîm prosiect gwefan LARSOA sy'n barnu p'un yw'r ymgyrch fuddugol.

Cydweithio ar ddiogelwch ar y ffyrdd

Mae'r Comisiwn Archwilio wedi ail-lansio'r adran o'i wefan sy'n ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd, ac wedi cynnwys deunydd newydd ynddi. Gan adeiladu ar yr ymateb i'r adroddiad *Changing Lanes: Evolving Roles in Road Safety*, mae'r Comisiwn, ers Chwefror 2007, wedi ychwanegu deunydd newydd at ei wefan. Bellach, mae'r wefan yn cynnwys meysydd newydd i'r Ysgolion/Colegau a'r Cyflogwyr sydd â diddordeb mewn gostwng nifer y rhai sy'n cael eu hanafu neu eu lladd ar y ffyrdd.

Mae Cwestiynau Gwella wedi'u hychwanegu ac wedi'u haddasu ar gyfer y cynulleidfaoedd targed:

- swyddogion cyngor;
- aelodau;
- yr heddlu;
- tân ac achub;
- iechyd; ac
- ysgolion a cholegau.

Dylai'r cwestiynau hyn helpu asiantaethau lleol i adolygu sut y rheolir y gwaith o ostwng y nifer sy'n cael eu hanafu a'u lladd. Dylai hefyd esgor ar gynigion i reoli'r gwaith hwnnw'n well. Bwriad y deunydd ar y tudalennau hyn yw ysgogi gweithgarwch ymhlith y partneriaid lleol allweddol i gwtogi ar nifer y rhai sy'n cael eu hanafu neu eu lladd. Mae deunydd arall ar y wefan yn hybu cydweithio ac yn enghreifftio hynny drwy gyflwyno astudiaethau achos.

Y gobaith yw y bydd Swyddogion Diogelwch ar y Ffyrdd yn defnyddio'r deunydd hwn yn eu sefydliadau eu hunain ac yn tynnu sylw cydweithwyr mewn asiantaethau eraill ato er mwyn cynyddu'r cydweithio i ostwng y nifer sy'n cael eu hanafu neu eu lladd.

Mae'r wefan ar ei newydd wedd yn: www.audit-commission.gov.uk/roadsafety

Ymgyrch Dyn y Fan Wen

I geisio cwtogi ar nifer yr anafiadau a'r marwolaethau ar y ffyrdd, mae ymgyrch newydd o dan PWYLLWCH! wedi'i lansio i daclo pwysau gwaith y tair miliwn o "Ddynion y Faniau Gwyn" ym Mhrydain a'u hanallu, ambell waith, i ganolbwyntio.

Mewn ymgyrch newydd ac arloesol ar y teledu, caiff pawb sy'n ffonio gyrwyr ar eu ffonau symudol eu hannog i ffonio'n ôl yn ddiweddarach - "If they're driving, kill the conversation".

Bydd Ymgyrch PWYLLWCH! Gyrru wrth Weithio yn canolbwyntio ar ddileu llawer o'r peryglon sy'n wynebu gyrwyr faniau – fel ffonau symudol, pwysau gwaith a blinder. Yn y cyfamser, caiff gyrwyr a'u penaethiaid eu hannog i gynllunio'u teithiau'n well mewn ymgais i gwtogi ar oryrru.

Dros y 10 mlynedd diwethaf gwelwyd cynnydd o draean yn nifer y faniau ym Mhrydain, ac mae'r ymgyrch yn dangos y cyfraniad hanfodol y bydd gyrwyr faniau'n ei wneud ac effaith ddramatig gwrthdrawiad ar y ffordd. Cewch wybod rhagor yn THINK! Driving for Work

Efelychydd Pellterau Stopio

Mae RoSPA wedi lansio efelychydd ar-lein newydd i ddangos peryglon bod y tu ôl i'r llyw wrth oryrru, ar ôl yfed neu wrth ddefnyddio ffôn symudol.

Mae'r efelychydd, www.stoppingdistances.org.uk, yn dangos sut mae cyflymder, y tywydd a namau'n effeithio'n aruthrol ar bellterau stopio – ac yn arwain at wrthdrawiadau ac at ladd cerddwyr.

Mae'r efelychydd wedi'i gynhyrchu gyda chymorth yr Adran Drafnidiaeth i helpu pob gyrrwr i gynyddu ei (g)wybodaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd – ond gall fod yn arbennig o ddefnyddiol i'r rhai sy'n cyflogi pobl i yrru fel rhan o'u gwaith, a hefyd i ysgolion a cholegau.

Cliciwch yma i fynd i'r wefan newydd

Newid y rheolau ynghylch bagiau aer

Mae'r sefydliad Ewropeaidd sy'n cynnal profion ar wrthdrawiadau wedi cytuno i newid ei system sgorio ar ôl i *Which?* ddarganfod y gallai rhai bagiau aer, cyn iddyn nhw agor yn llawn, achosi anafiadau i wynebau teithwyr. Y gobaith yw y bydd penderfyniad Euro NCAP i gosbi ceir sydd â bagiau aer nad ydyn nhw'n agor mor ddiogel ag y dylent yn annog y gweithgynhyrchwyr perthnasol i wella'u cynllun.

Helpwyd ***Which?*** gan dystiolaeth o anafiadau gan fagiau aer ledled y byd i bwyso am newid yn system raddio Euro NCAP. Yn y dyfodol, bydd ceir yn colli pwynt o'u sgôr cyffredinol os gallai'r bagiau aer anafu wyneb neu lygad unrhyw deithiwr. Gallai colli pwynt olygu'r gwahaniaeth rhwng cael pedair seren a chael pum seren.

Meddai Richard Headland, golygydd moduro ***Which?***, "Dylai'r newid hwn ysgogi gwelliannau o bwys yng nghynllun bagiau aer, ond mae'n bwysig pwysleisio mai bach iawn yw'r perygl y cewch chi anaf. Gan fod bagiau aer yn dal i arbed miloedd o fywydau bob blwyddyn, byddwch chi bron bob amser yn fwy diogel os bydd un gennych chi."
www.euroncap.com

Llawlyfr i Yrwyr Gwirfoddol

Dyma lawlyfr i yrwyr gwirfoddol i danlinellu eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau cyfreithiol i sicrhau eu diogelwch eu hunain a diogelwch eu teithwyr drwy ddilyn y polisïau sydd wedi'u nodi gan eu mudiad gwirfoddol eu hunain.

Mae'n cynnwys cyngor ynghylch:

- Pwysigrwydd gyrru'n ddiogel
- Problemau i'r sector gwirfoddol
- Amharu ar y gyrrwr (blinder, diod, cyffuriau, golwg, ffitrwydd, ffonau symudol, ac ati)
- Cyflwr y cerbyd
- Rheoli Cyflymdra
- Cynllunio'r Daith, a'r tywydd

Y bwriad yw i'r llawlyfr gael ei ddefnyddio ar y cyd â pholisïau'r mudiadau gwirfoddol eu hunain drwy annog y gyrwyr i ddarllen manylion polisïau eu mudiad a'u hysgrifennu yn y gofod sydd yn y llyfryn. Mae'n beth digon bach i'w gadw yn y cerbyd.

Mae'r llawlyfr yn awr ar gael fel llyfryn A5 am ddim a gallwch ei lwytho i lawr o:
www.rospa.com/roadsafety/info/volunteer_drivers.pdf.

Mesurau newydd i daclo cludwyr twyllodrus

O dan fesurau newydd sydd wedi'u datgelu er mwyn i'r Adran Drafnidiaeth ymgynghori yn eu cylch, mae cludwyr sy'n torri rheolau'r ffordd yn wynebu cael dirwy a methu â defnyddio'u cerbydau.

Bydd y mesurau hefyd yn sicrhau na chaiff cludwyr o'r tu allan i Brydain osgoi cael eu cosbi am y bydd yr heddlu ac arolygwyr o'r Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) yn gallu casglu cosbau yn y fan a'r lle oddi wrth unrhyw un sydd heb gyfeiriad dilys ym Mhrydain.
Meddai'r Gweinidog dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd: "Dyma atal y gyrwyr sy'n meddwl y gallan nhw droseddu yma a dianc yn ddi-boen. Diben hyn yw gwneud ein ffyrdd yn fwy diogel a chreu maes gwastad ledled Ewrop.
"Allai'n neges ni ddim bod yn gliriach: p'un a ydych chi'n byw yma neu dramor, peidiwch â meddwl y gallwch chi dorri rheolau'r ffordd heb gael eich cosbi." Darllenwch y stori lawn

Pen-blwydd PACTS yn 25 oed

Elusen gofrestredig a Grŵp Seneddol cyswllt yw Cyngor Ymgynghorol y Senedd ar Ddiogelwch Cludiant (PACTS), a'i amcan yw "Hybu deddfwriaeth ar ddiogelwch cludiant i ddiogelu bywydau pobl".

Ei nod yw rhoi cyngor a gwybodaeth i aelodau o Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi am faterion diogelwch yn yr awyr ac ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd. Daw â deddfwyr a swyddogion proffesiynol ym maes diogelwch ynghyd i ddod o hyd i atebion – ar sail ymchwil – i broblemau diogelwch cludiant. Bydd yn rhoi sylw i gost, effeithiolrwydd a derbynioldeb yr atebion hynny, ac i ba mor ymarferol bosibl ydyn nhw.

Sefydlwyd PACTS ym 1982, yn bennaf i ymgyrchu dros orfodi gwisgo gwregysau diogelwch. Bum mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, mae'n dal i ymgyrchu dros wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ym maes diogelwch cludiant er mwyn diogelu bywydau pobl. Yn y ddogfen sydd ynghlwm, mae'r Athro Richard Allsop, un o'r aelodau a sefydlodd PACTS, yn amlinellu rhai o'r sialensiau a fydd yn wynebu'r proffesiwn diogelwch cludiant, a PACTS yn arbennig, yn y dyfodol. Darllenwch sylwadau yr Athro Allsop

'City Safety' Volvo



Mae Volvo wedi cyflwyno system 'City Safety' a allai, meddai, helpu gyrwyr i osgoi hanner yr holl wrthdrawiadau â chefnau ceir sy'n digwydd mewn traffig araf.

Mae'r system yn defnyddio radar i fonitro'r traffig hyd ar chwe metr o flaen y cerbyd, a bydd yn gweithio hyd at 30km/awr. Os yw gwrthdrawiad â'r car o'ch blaen ar fin digwydd, bydd yn brecio'n awtomatig ac yn cwtogi ar chwip-anafiadau a chostau atgyweirio. Bwriad Volvo yw cyflwyno'u system 'City Safety' yn raddol dros y ddwy flynedd nesaf.

Cyn hyn, mae Volvo wedi cyflwyno systemau diogelwch gweithgar sy'n helpu'r gyrrwr i osgoi a chwtogi ar ddifrod ac anafiadau mewn gwrthdrawiadau. Enghraifft o hynny yw'r Cymorth Rhybuddio a Brecio mewn Gwrthdrawiadau sydd i'w gael yn y Volvo S80. Bydd yn rhoi arwyddion hyglyw a gweledol i'r gyrrwr os yw'r bwlch o flaen y car yn lleihau mor gyflym nes bod gwrthdrawiad yn debyg o ddigwydd. Yr un pryd, paratoir y system frecio er mwyn i'r brecio fod mor effeithiol â phosibl yn yr argyfwng hwnnw. www.volvocars.co.uk

Cynllun 'Excess Speed'

Yn ystod ymgyrch wythnos o hyd mewn 18 gwlad yn Ewrop adeg Wythnos Fyd-eang Diogelwch ar y Ffyrdd y Cenhedloedd Unedig fe lwyddwyd i ddal gyrwyr a oedd yn goryrru, a'u dal ar gyfradd o fwy nag un ohonyn nhw bob dwy eiliad.

Rhwng Ebrill 23 a 29 fe ddaliwyd dros 380,000 o fodurwyr gan y Cynllun 'Excess Speed' a gydlynwyd gan TISPOL, sef Rhwydwaith Heddlu Traffig Ewrop. Cyhoeddwyd Wythnos Fyd-eang Diogelwch ar y Ffyrdd gan y Cenhedloedd Unedig ar ôl i ymchwil ddangos bod 1.2m o bobl yn marw ar y ffyrdd bob blwyddyn. Yn Ewrop, damweiniau ar y ffyrdd sy'n lladd y nifer fwyaf o bobl 4-25 oed, a goryrru yw achos mwyaf cyffredin damweiniau angheuol – caiff rhyw 11,000 o bobl eu lladd ar ffyrdd Ewrop bob blwyddyn. Darllen rhagor

Cysylltwch â'r Golygydd

Hawlfraint © 2007 gan RoSPA Cymru – Cedwir Pob Hawl.

Golygydd: Steve Baker, RoSPA
sbaker@rospa.com 02920 250 600